# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 18 Gorffennaf 2008

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Yn dilyn ymrwymiad y Gweinidog i sefydlu 'grŵp gweithredu' yn dilyn methu gwerthu safle Dolgarrog i ystyried dewisiadau ar gyfer dyfodol y safle: (a) a gafodd y grŵp hwn ei sefydlu; (b) pwy oedd yr aelodau a (c) beth oedd eu cynigion? (WAQ52235)

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):**
(a) Cynhaliodd y Grŵp Gweithredu Lleol ei gyfarfod cyntaf ar 18fed Mawrth 2008.
(b) Mae'r aelodau'n cynnwys aelodau etholedig lleol a swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a wardiau cyfagos; Parc Cenedlaethol Eryri; y Ganolfan Byd Gwaith; swyddogion Llywodraeth y Cynulliad (APADGOS ac Adran yr Economi a Thrafnidiaeth). Arweinir y broses o weithredu gwaith y Grŵp gan y Dirprwy Weinidog dros Adfywio.
(c) I ddechrau, cytunodd y Grŵp i gomisiynu astudiaeth i ystyried y defnydd posibl y gellid ei wneud o'r safle a fyddai'n gynaliadwy ar gyfer yr ardal. Fodd bynnag, gohiriwyd yr astudiaeth oherwydd y cyfnod neilltuedig 12 wythnos gydag Ainscough Johnston. Bydd cynrychiolwyr y perchnogion newydd yn mynychu'r cyfarfod nesaf i amlinellu eu cynigion a gweithio gyda'r grŵp o ran y ffordd ymlaen.

Bydd camau eraill yn cynnwys:

- Astudio rhestr o gredydwyr a roddwyd gan KPMG i ddadansoddi taeniad daearyddol credydwyr mewn perthynas â Chonwy.
- Ymgynghori â'r Ganolfan Byd Gwaith o ran y cyn-gyflogeion hynny sy'n ddi-waith o hyd a darparu cymorth dilynol.
- Cyfarfod â'r Ganolfan Byd Gwaith, APADGOS a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i drafod faint o gyn-gyflogeion sy'n dymuno bod yn hunan-gyflogedig fel y gellir darparu cyngor iddynt o ran cymorth bunses a'r cyfloedd hyfforddi posibl sydd ar gael iddynt o hyd.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud unrhyw ymrwymiad ariannol mewn perthynas â gwerthu safle Dolgarrog ac, os felly, pa lefel o gyllid a ystyrir? (WAQ52236)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud unrhyw ymrwymiad ariannol o ran gwerthu safle Dolgarrog. Fodd bynnag, hwylusodd y broses o drosglwyddo'r safle i Ainscough Strategic Land i alluogi ailddatblygu'r safle'n gynnar. Mae telerau'r trosglwyddo yn ei wneud yn ofynnol i'r datblygwr dalu cost unrhyw waith adfer ar y safle yn y dyfodol.

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gyfrifoldeb ariannol dros y gwaith a wnaethpwyd gan weinyddwyr Alwminiwm Dolgarrog, ac os oes perthynas ariannol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a KPMG beth yw graddfa'r ymrwymiadau a wnaethpwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ52237)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gyfrifoldeb ariannol am y gwaith a wnaed gan weinyddwyr Dolgarrog Aluminium. Fodd bynnag, er mwyn hwyluso ailddatblygu'r safle gan Ainscough Strategic Land, defnyddiodd Llywodraeth y Cynulliad ei phwerau caffael tir i sicrhau rhyddhau'r safle i'r datblygwr heb unrhyw gost i bwrs y wlad. Cyflawnwyd hyn drwy hwyluso trosglwyddo'r safle gefn wrth gefn o'r gweinyddwyr i'r datblygwyr drwy Lywodraeth y Cynulliad, sef proses a ariannwyd yn gyfan gwbl gan Ainscough Strategic Land.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i greu cyfleoedd swyddi ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? (WAQ52245)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Rwyf yn gwireddu gweledigaeth Cymru'n Un o economi gryfach a mwy mentrus sy'n creu mwy o swyddi, a rheini'n swyddi gwell. Ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed mae hyn yn cynnwys cyflwyno Cymorth Hyblyg i Fusnes a'r Gronfa Fuddsoddi Sengl sy'n trawsffurfio'r ffordd rydym yn cefnogi busnesau i dyfu, ffynnu a chreu cyflogaeth o safon sy'n gynaliadwy. Bydd yr ymagwedd hon yn ein helpu i adeiladu ar fewnfuddsoddiad diweddar yn Aberhonddu, Ystradgynlais a Thalgarth, yn ogystal â negodiadau parhaus â busnesau unigol yn Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt.

**Irene James (Islwyn):** Pa grantiau sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gwmnïau nad ydynt yn gwmnïau gweithgynhyrchu? (WAQ52267)

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Drwy Gymorth Hyblyg i Fusnes gall Llywodraeth y Cynulliad gynnig cymorth a deilwrwyd i amgylchiadau ac anghenion penodol pob cwmni unigol ym mhob sector. Gallai'r cymorth hwn gynnwys cymorth ariannol o'r Gronfa Fuddsoddi Sengl a/neu ystod o wasanaethau eraill. Am ragor o wybodaeth, dylai cwmnïau gysylltu â'r gwasanaeth Cymorth Hyblyg i Fusnes drwy ffonio 03000 6 03000 neu fynd i'r wefan, www.business-support-wales.gov.uk.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn swyddogaethau addysgu yn ysgolion uwchradd Cymr? (WAQ52218)

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn swyddogaethau addysgu yn Ysgolion Cynradd Cymru? (WAQ52219)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae'r tabl isod yn nodi nifer yr athrawon sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yng Nghymru a'u rhyw. Mater i'r Corff Llywodraethu a Phenaethiaid yn gweithio gyda'u AALl yw penderfyniadau o ran penodi staff ysgol i sicrhau y gweithredir y polisïau recriwtio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau priodol.

**Athrawon cymwysedig yn ôl rhyw, Ionawr 2007**
yn cynnwys penaethiaid, dirprwy benaethiaid ac athrawon cymwysedig eraill

| | **Cynradd** | | **Uwchradd** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfrif** | **Cyfwerth ag amser llawn** | **Cyfrif** | **Cyfwerth ag amser llawn** |
| **Gwryw** | 2,237 | 2,174 | 5,225 | 5,112 |
| **Benyw** | 11,827 | 10,474 | 8,156 | 7,551 |
| **Cyfanswm** | 14,064 | 12,648 | 13,381 | 12,663 |

Ffynhonnell: CYBLD Ionawr 2007.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Sawl digwyddiad o losgi bwriadol a fu mewn ysgolion ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru ym mhob blwyddyn er 1999? (WAQ52233) ***Trosglwyddo i'w ateb yn ysgrifenedig gan yr Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol***

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Dengys tabl 1 isod y tanau bwriadol mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach o fewn pob Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd calendr 1999-2006.

**Tabl 1: Tanau bwriadol mewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, 1999-2006 (a)**

| | | 1999 | 2000 | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cymru (b)** | Ysgolion (c) | 54 | 47 | 36 | 64 | 39 | 45 | 41 | 32 |
| | Addysg bellach (d) | 4 | 5 | 10 | 5 | 0 | 12 | 6 | 5 |
| **Gogledd Cymru** | Ysgolion (c) | 8 | 6 | 0 | 6 | 10 | 4 | 18 | 8 |
| | Addysg bellach (d) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |
| **Canolbarth a Gorllewin Cymru** | Ysgolion (c) | 14 | 25 | 0 | 26 | 12 | 8 | 9 | 9 |
| | Addysg bellach (d) | 4 | 0 | 4 | 0 | 0 | 12 | 2 | 0 |
| **De Cymru** | Ysgolion (c) | 31 | 16 | 36 | 32 | 16 | 32 | 14 | 15 |
| | Addysg bellach (d) | 0 | 5 | 6 | 5 | 0 | 0 | 4 | 0 |

Ffynhonnell: FRD1 ffurflenni casglu data ar achosion tân, Cymunedau a Llywodraeth Leol.

(a) Defnyddir ffurflenni FDR1(94) ar gyfer prif danau fel sampl. Mae'r cronfeydd data prif danau o 2000 i 2004 a Chwarter 2 ymlaen yn 2006 yn cynnwys pob tân a'r nifer o bobl a anafwyd neu a laddwyd, ond dim ond sampl o 20 y cant o danau eraill a ddewiswyd mewn modd systemataidd ar gyfer pob Gwasanaeth Tân ac Achub.
(b) Talgrynnwyd eitemau a chyfansymiau ar wahân i'r digid olaf agosaf felly gall y cyfanswm a ddangosir fod ychydig yn wahanol i swm yr eitemau
(c) Mae ysgolion yn cynnwys sefydliadau cyn-ysgol e.e. meithrinfeydd dydd ac ysgolion chwarae, ysgolion awdurdodau lleol ac ysgolion annibynnol, canolfannau arhosiad byr, e.e. canolfannau astudiaethau maes a chanolfannau antur, ysgolion preswyl.
(d) Mae addysg bellach yn cynnwys prifysgolion di-breswyl, sefydliadau addysg i oedolion, undebau myfyrwyr, ysgolion celf, hyfforddiant amaethyddol/milfeddygol, canolfan hyfforddi'r heddlu a chanolfan hyfforddi galwedigaethol.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog egluro sut y mae'r adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru yn ystyried swyddogaeth y sector elusennau? (WAQ52234)

**Jane Hutt:** Fel rhan o'i gylch gwaith, bydd yr adolygiad o Addysg Uwch o dan gadeiryddiaeth yr Athro Merfyn Jones yn ceisio cynghori Llywodraeth y Cynulliad ar weledigaeth a strategaeth newydd a fydd yn galluogi addysg uwch yng Nghymru i ddiwallu anghenion economi fodern sy'n seiliedig ar wybodaeth, a all gystadlu'n fyd-eang. Yn y cyd-destun hwn, bydd yr adolygiad yn ystyried cydberthynas addysg uwch â'r sector elusennol yng Nghymru. Mae'r Trydydd Sector yn chwarae rôl sylweddol o ran mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ehangu cyfranogiad a chyfrannu at ddatblygiad economaidd lleol.

Disgwyliaf i Adolygiad yr Athro Jones gael tystiolaeth gan gynrychiolwyr y sector megis Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar ymatebolrwydd addysg uwch yng Nghymru i fyfyrwyr rhyngwladol.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysylltiadau rhwng sefydliadau Addysg Uwch a'r sector gwirfoddol? (WAQ52241)

**Jane Hutt:** Ledled Cymru, mae sefydliadau Addysg Uwch wedi datblygu cydberthnasau gwaith agos â'r sector gwirfoddol. Ymdrinnir â'r broses o ymgysylltu â hwy yn bennaf yn eu Strategaeth Ehangu Mynediad a'r Strategaeth Trydedd Cenhadaeth (sy'n disgrifio gweithgareddau a gynhaliwyd gyda Sefydliadau Addysg Uwch sydd o fudd i economi, cymdeithas a diwylliant Cymru).

Mae gwaith y Fenter Ymgyrraedd yn Ehangach, a sefydlwyd yn 2002 gan y Cyngor Cyllido Addysg Uwch, wedi cefnogi a hwyluso gwaith ehangu mynediad Sefydliadau Addysg Uwch. Mae'r fenter yn targedu pobl sy'n byw mewn Ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, Pobl Dduon a chymunedau Ethnig, Pobl sy'n dymuno astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a Phobl Anabl. Mae'r partneriaethau wedi datblygu cysylltiadau gwaith agos â'r sector gwirfoddol.

Bydd yr Adolygiad o Addysg Uwch yng Nghymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar hefyd yn ceisio gwerthuso gwaith y sector Addysg Uwch yn ei bartneriaethau â'r sector gwirfoddol ac adeiladu ar hyn yn ei argymhellion.

Ceir nifer o enghreifftiau o fewn Strategaethau Ehangu Mynediad a Strategaethau Trydedd Cenhadaeth Sefydliadau Addysg Uwch o ryngweithio uniongyrchol rhwng SAU a'r sector gwirfoddol a/neu'r sector elusennau, ac atodaf y rhain yn Atodiad 1.

Roeddwn yn falch i nodi bod CCAUC a Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru eisoes wedi datblygu cydberthynas ardderchog gyda secondai o'r RSPB i Lywodraeth Cynulliad Cymru, sydd â'r rôl o ddatblygu a darparu'r cynllun gweithredu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Hoffwn annog proses ymgysylltu llawn a phriodol a lywiwyd gan y ddwy ochr, gan fod Sefydliadau Addysg Uwch yn sicr yn agored ar gyfer busnes.

**ATODIAD 1**

Enghreifftiau o weithgareddau Sefydliadau Addysg Uwch (ffynhonnell Strategaethau Trydedd Cenhadaeth):

Prifysgol Caerdydd: mae'r Brifysgol yn annog gweithgareddau allgymorth megis digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned ehangach a chysylltiadau staff/myfyrwyr â'r sectorau gwirfoddol. e.e. drwy waith Student Volunteering Caerdydd a'r Rhwydwaith Gweithredu Cymdeithasol a Chymunedol sy'n darparu ffocws canolog ar gyfer gwaith elusennol a datblygu cysylltiadau â'r gymuned leol.

Dragon Innovation Partnership (Consortiwm Datblygu Economaidd De Orllewin Cymru gynt - Prifysgol Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin): datganiad o ymrwymiad y Bartneriaeth i ddwyn ynghyd y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn cyflawni eu blaenoriaethau. Caiff Coleg y Drindod, ochr yn ochr â Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin, ei gynrychioli ar Bwyllgor Rheoli Partneriaeth Amgylcheddol y Sir. Mae Prifysgol Fetropolitan Abertawe yn datblygu ei chysylltiadau â'r gymuned ehangach drwy Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan a Chymdeithas Gŵyr.

Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan: disgrifiad o'r cysylltiadau cryf sy'n bodoli â sefydliadau yn y sector gwledig yng nghyd-destun datblygu cymunedau lleol, e.e. Cadw, Archaeoleg Cambria, Coed Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Hanes Llanbed.

Prifysgol Morgannwg / Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru: (i) gwasanaeth hyfforddi ac ymgynghori sy'n targedu'r sector gwirfoddol yn benodol, fel arfer mewn partneriaeth â Rhondda Cynon Taf; (ii) mae'r brifysgol yn sefydlu "Tîm codi arian corfforaethol" i gefnogi datblygiadau creadigol a diwylliannol gan weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol; (iii) bydd y Rhaglen Ddirnadaeth Strategol, a sefydlwyd ar y cyd ag UWIC a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, yn cefnogi cyfres o secondiadau o staff academaidd i sefydliadau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

Prifysgol Cymru, Casnewydd: mae prosiectau perthnasol â'r sector gwirfoddol yn cynnwys BeWEHL (Gwell Lles, Addysg ac Iechyd mewn Cymunedau) sy'n datblygu capasiti cymunedau ac unigolion drwy gynnwys cyfranogwyr mewn ymchwil a gweithgareddau cymunedol, gan weithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol.

Enghreifftiau pellach o weithgareddau Sefydliadau Addysg Uwch (ffynhonnell: y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach / Strategaethau Ehangu Mynediad):

- Mae Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn darparu hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer gwirfoddolwyr a'r sectorau gwirfoddol a dielw. Mae rhaglenni dysgu hyblyg ac o bell ar gael ar lefel dystysgrif, diploma a gradd a bydd MA mewn Astudiaethau'r Sector Gwirfoddol ar gael o 2008. Yn 1998

dyfarnwyd Gwobr Pen-blwydd y Frenhines ar gyfer Addysg Uwch i'r Dystysgrif mewn Astudiaethau Sector Gwirfoddol.

- Mae'r dystysgrif Addysg Uwch mewn Astudiaethau Personol a Phroffesiynol ym Mhrifysgol Bangor yn cynnwys modiwlau ar Astudiaethau Adsefydlu a Chyflwyniad i Gynghori ar Gyffuriau ac Alcohol. Cynlluniwyd a darparwyd y modiwlau hyn ar y cyd â CAIS (Gwasanaeth Cynghori ar Gyffuriau ac Alcohol Gogledd Cymru). Ers 2004 mae tua 100 o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yn y modiwl Cyflwyniad i Gynghori ar Gyffuriau ac Alcohol, sydd werth 30 credyd. Mae Adran Dysgu Gydol Oes Bangor yn gweithio'n agos â CAIS ar hyn o bryd i ddatblygu modiwlau ychwanegol ar gyfer y sawl sy'n gweithio yn y maes ar sail cyflogedig neu wirfoddol.

- Mae pedwar Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru (Bangor, Caerdydd, Prifysgol Glyndŵr ac Abertawe) wedi cyflawni Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal mewn Addysg Uwch. Ym mis Tachwedd 2008 bydd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn agor ail gynhadledd CCAUC, Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar Arfer Gorau o ran Cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Sawl sy'n Gadael Gofal mewn Addysg Uwch. Mae cynllun gweithredu CCAUC ar gyfer y sawl sy'n gadael gofal yn cynnwys camau gweithredu i annog pob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru i gyflawni gwobr yr Ymddiriedolaeth.

- Mae Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd Cymru wedi datblygu pecyn cymorth mentora cymheiriaid dwyieithog ar gyfer ysgolion i alluogi disgyblion blwyddyn 12 i fentora blwyddyn 7. Mae'r gwaith mentora dyheadol hwn yn cyfrannu at bortffolio Bagloriaeth Cymru disgyblion blwyddyn 12 fel tystiolaeth o waith gwirfoddoli. Caiff y pecyn cymorth mentora cymheiriaid ei ail-lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst 2008.

- Mae Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De Orllewin Cymru yn gweithio gyda Chyngor Ffoaduriaid Cymru, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan (AWEMA), Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig (MEWN) a grwpiau sector gwirfoddol eraill i ddarparu rhaglen ehangu mynediad Cymru gyfan i godi dyheadau addysgol rhieni a phobl ifanc dduon a lleiafrifoedd ethnig eraill.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddiwygio'r rheoliadau gwledig i ganiatáu i Fferyllfeydd Cymunedol weinyddu? (WAQ52263)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Yn ddiweddar gofynnais am sefydlu gweithgor i'm cynghori ar ddiwygiad posibl y 'Rheoliadau'. Gwahoddir Fferylliaeth Gymunedol Cymru a rhanddeiliaid eraill i fod yn rhan o'r grŵp hwn.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pryd ddaw'r contract ocsigen cyfredol i ben a pha gynlluniau sy'n cael eu gwneud i'w adolygu? (WAQ52264)

**Edwina Hart:** Daw'r contract ocsigen cyfredol i ben ar 31 Ionawr 2011 ac mae'n ymwneud â'r Adran Iechyd. Mae gan y contract strwythur adolygu a rheoli cynhwysfawr ar lefel Cymru a lefel yr Adran Iechyd. Bydd y broses ail-dendro yn dechrau ddeuddeg mis cyn y daw'r contract presennol i ben ym mis Chwefror 2010.